CYDBWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH

Cofnodion cyfarfod o Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd drwy Gynhadledd Fideo ddydd Gwener, 11 Chwefror 2022 am 11.00am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones, Cyngor Sir Ddinbych (CSDd)
Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies, Cyngor Sir Ddinbych
Y Cynghorydd Rachel Flynn, Cyngor Sir Ddinbych
Y Cynghorydd Chris Hughes, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC)
Y Cynghorydd Ifor Lloyd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cynghorydd Don Milne, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cynghorydd Arwel Roberts, Cyngor Sir Ddinbych
Y Cynghorydd Liz Roberts, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cynghorydd Geoffrey Corry, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cynghorydd Nigel Smith (Is-gadeirydd), Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cynghorydd Graham Timms (Cadeirydd), Cyngor Sir Ddinbych

HEFYD YN BRESENNOL

Hannah Edwards, Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (CBSC)
Rhian Evans, Cydlynydd Craffu (CSDd)
Stephanie Jones, Gweinyddwr Pwyllgorau (CSDd)
Rhodri Tomos-Jones, Gweinyddwr Pwyllgorau (CSDd)
Dawn Hughes Swyddog Gwasanaethau Craffu a Phwyllgorau (CBSC)
Fran Lewis Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol (CBSC)
Nicola Kneale Rheolwr Cynllunio Strategol (CSDd)

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Hugh Irving, Melvyn Mile a Joan Vaughan.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Nid oedd unrhyw un yn datgan cysylltiad personol nac un oedd yn rhagfarnu.

3 MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys wedi eu codi gyda'r Cadeirydd cyn y cyfarfod.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2021

er cymeradwyaeth. Ni chodwyd unrhyw fater mewn perthynas â chynnwys y cofnodion.

<u>Penderfynwyd</u>: Cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2021 fel cofnod cywir.

5 ASESIAD LLES CONWY A SIR DDINBYCH 2022 - TROSOLWG O'R YMGYSYLLTIAD

Croesawodd y Cadeirydd Fran Lewis, Pennaeth Gwella Corfforaethol ac Adnoddau Dynol (PGCAD) Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gyflwyno'r eitem hon ar y rhaglen (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

Arweiniodd y Pennaeth Gwella Corfforaethol ac Adnoddau Dynol aelodau drwy'r adroddiad a'r broses a gwblhawyd i lywio asesiad lles 2022. Atgoffwyd aelodau ei bod yn ofyniad statudol i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynhyrchu Asesiad Lles Lleol. Yn yr un modd ag arfer, defnyddiwyd barn y gymuned ac ymchwil data a thueddiadau demograffig i lywio'r asesiad. Nodwyd bod ymgysylltu wedi bod yn heriol iawn yn sgil cyfyngiadau Covid. Roedd swyddogion wedi addasu eu dull o ymgysylltu â'r gymuned.

Sylweddolwyd y byddai'n rhaid cwblhau'r broses ymgysylltu o bell. Roedd swyddogion yn ymwybodol, fodd bynnag, er bod pobl ar y cyfan wedi addasu i weithio ar lein, roedd yn rhaid cydbwyso hynny gyda 'blinder zoom'. Pwysleisiwyd bod swyddogion wedi gweithio'n galed i hyrwyddo'r ymgysylltiad ac wedi defnyddio dull cynhwysol er mwyn sicrhau nad oedd pobl yn cael eu neilltuo'n ddigidol.

Cynhaliwyd ymgyrch Sgwrs y Sir ar draws Siroedd Conwy a Dinbych hefyd. Roedd y dulliau ymgysylltu ychydig yn wahanol ac wedi cael eu haddasu ar gyfer y ddwy sir. Yn Sir Ddinbych, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd ar-lein yn ôl ardaloedd daearyddol, a chynhaliwyd cyfarfodydd ar-lein yn ôl themâu lles dinasyddion yng Nghonwy. Roedd y ddau ddull wedi casglu barn y gymuned.

Roedd Swyddogion yn teimlo bod y dull hwn yn llwyddiannus, fodd bynnag, nodwyd bod y gyfradd ymateb yn isel. Cwblhawyd darn o waith i ddadansoddi'r gwaith ymgysylltu blaenorol a gwblhawyd yn y 18-24 mis blaenorol i gefnogi'r sesiynau ymgysylltu ar-lein. Er mwyn sicrhau nad oedd unigolion wedi'u heithrio, cynhaliodd y ddau awdurdod arolwg ar-lein i'w gwblhau gan gymunedau gan sicrhau bod copïau caled ar gael hefyd.

Amlygwyd bod y digwyddiad rhanbarthol a gomisiynwyd i gasglu barn grwpiau nas clywir yn aml wedi gweithio'n dda. Cynhaliwyd y digwyddiad gyda chefnogaeth gan y fforwm Lleisiau Cymunedol. Daeth dros 40 o sefydliadau i'r digwyddiad.

Clywodd Aelodau bod gwaith ymgysylltu wedi cael ei gwblhau gyda nifer o grwpiau cymunedol gwahanol, a rhoddwyd pwyslais arbennig ar y pwysigrwydd o geisio barn pobl ifanc. Ymgysylltwyd â Chyngor Ieuenctid Sir Ddinbych a grwpiau ieuenctid yng Nghonwy, fodd bynnag, roedd hyn wedi bod yn heriol yn ystod yr adolygiad hwn.

Drwy'r broses, nododd y Pennaeth Gwella Corfforaethol ac Adnoddau Dynol bod swyddogion wedi gallu casglu barn a'u cysylltu gyda themâu perthnasol a'u defnyddio i gadarnhau gwybodaeth ymchwil a demograffig.

Roedd crynodeb demograffig wedi'i gynnwys yn y pecyn (Atodiad i'r adroddiad).

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Gwella Corfforaethol ac Adnoddau Dynol am y cyflwyniad manwl ac atgoffwyd aelodau bod yr eitem hon wedi'i chynnwys ar y rhaglen er mwyn i aelodau ystyried y broses ymgysylltu yn benodol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, eglurodd y Pennaeth Gwella Corfforaethol ac Adnoddau Dynol:

- Bod y rheswm dros y gwahaniaeth rhwng nifer yr ymatebion yn y ddau awdurdod yn aneglur. O ran hysbysebu a hyrwyddo'r digwyddiadau, mabwysiadwyd dull tebyg iawn. Defnyddiwyd llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol gan y ddau awdurdod ac roedd aelodau hefyd wedi cefnogi drwy hyrwyddo'r ymgysylltiad.
- Gobeithiwyd y byddai cynnal digwyddiadau ar amseroedd gwahanol yn annog cyfranogiad pellach. Nodwyd nad oedd yr ymateb yn llawer gwell gyda'r nos. Yn y dyfodol, efallai y gallai'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu helpu swyddogion gydag ymgysylltiadau ac ymgynghoriadau cyhoeddus er mwyn cyflawni rhagor o gyfranogiad.
- Diolchodd Aelodau i'r swyddogion am eu gwaith caled yn trefnu'r digwyddiadau ymgysylltu. Teimlwyd yn aml iawn nad oedd trigolion yn dymuno ymgysylltu â digwyddiadau ac roedd hynny'n cael effaith ar nifer yr ymatebion.
- Roedd trigolion ar y cyfan yn ymgysylltu'n well ar faterion sydd o ddiddordeb iddyn nhw yn hytrach nac ar faterion strategol ehangach.
- Pwysleisiodd y Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (Cyngor Sir Ddinbych) bwysigrwydd ymgysylltu, ymgynghori a chynnwys trigolion mewn cynlluniau yn y dyfodol wrth i'r cynllun lles ddatblygu. Roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a swyddogion yn ymrwymo i gefnogi gwaith ymgysylltu ac ymgynghori yn y dyfodol.
- Roedd aelodau'n deall ei bod wedi bod yn gyfnod anodd i gynnal digwyddiadau ymgysylltu, ond roedd y cyfyngiadau Covid hefyd wedi cyflwyno cyfleoedd i gynnal digwyddiadau ar-lein.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

<u>Penderfynwyd</u>: yn amodol ar y sylwadau uchod, cefnogi'r dull ymgysylltu a ddefnyddiwyd i lywio datblygiad yr Asesiad Lles a derbyn y data a'r crynodeb o'r ymatebion a gafwyd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr adroddiad a chydnabuwyd yr anawsterau a oedd ynghlwm ag ymgysylltu â'r cyhoedd.

6 ASESIAD LLES CONWY A SIR DDINBYCH 2022

Cyflwynodd Nicola Kneale, Cyngor Sir Ddinbych - Rheolwr Cynllunio Strategol yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) gan nodi bod yr adroddiad yn darparu

manylion yr asesiad lles a oedd wedi cael ei ddatblygu dros y 12 mis diwethaf. Rhoddodd yr adroddiad gyfle i adolygu canfyddiadau allweddol yr Asesiad Lles Lleol a gwneud argymhellion fel rhan o'r broses ymgynghori.
Atgoffwyd aelodau o bwysigrwydd y drafodaeth am yr asesiad yn unol â'r gofynion statudol mewn perthynas â phrosesu a chynhyrchu asesiad lles 2022. Roedd yr adroddiad yn cynnig sicrwydd i aelodau ar y broses ddadansoddi gadarn a gwblhawyd i ddatblygu'r asesiad.

Pwysleisiwyd bod y ddogfen strategol hon yn allweddol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Y bwriad oedd defnyddio'r asesiad i ategu at gynlluniau strategol cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Darparodd y Rheolwr Cynllunio Strategol gefndir cryno ar y gwaith a oedd wedi'i gwblhau i gyflawni'r asesiad. Eglurwyd bod y camau cychwynnol yn cynnwys sefydlu tîm golygyddol traws sector a thraws sirol o ymchwilwyr ac arbenigwyr o wahanol sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Roedd gofyn i'r tîm archwilio lles yr ardal yn seiliedig ar y Saith Nod Lles dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Rhoddwyd gwybod i aelodau bod swyddogion wedi defnyddio arbenigedd y sector cyhoeddus o ran data ac ymchwil, sylwadau proffesiynol ac wedi datblygu cysylltiadau proffesiynol gyda chyrff ymchwil cenedlaethol i fwydo'r asesiad. Roedd ymgysylltiad â gweithwyr proffesiynol, trigolion ac aelodau etholedig hefyd wedi cyfrannu at yr asesiad. Defnyddiwyd y wybodaeth a gasglwyd i adolygu a diweddaru'r asesiad cyfredol.

Cynhaliwyd y cam ymchwil a dadansoddi o fis Ionawr tan fis Medi, yn dilyn hynny, gwiriwyd ansawdd y gwaith dadansoddol a'r ymgynghoriadau gan y tîm golygyddol a oedd wedi cael ei sefydlu ynghyd â chydweithwyr o sefydliadau allanol. Cynhaliwyd y gwiriadau ansawdd cyn cyhoeddi'r asesiad ar gyfer yr ymgynghoriad.

Nodwyd bod y wybodaeth yn yr asesiad ar gael ar wefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar fformat 'Wikipedia', fel yr oedd yn flaenorol.

Pwysleisiodd y Rheolwr Cynllunio Strategol bod gwneud synnwyr o'r wybodaeth a oedd ar gael i swyddogion yn ystod y cam ymchwil, sut i ddadansoddi'r wybodaeth a dod i gasgliad wedi bod yn heriol. Teimlwyd bod y crynodeb gweithredol wedi darparu trosolwg o'r pynciau a'r themâu allweddol a oedd yn codi o'r gwaith ymchwil a gwblhawyd. Roedd yr asesiad yn canolbwyntio ar y sefyllfa gyfredol yn ogystal â thueddiadau cyfredol a blaenorol gan ragweld dyfodol y pynciau y cyfeiriwyd atynt.

Eglurwyd y pum cwestiwn yn yr ymgynghoriad a restrir isod i'r Aelodau (fel y manylir yn yr adroddiad) -

i. Ydych chi'n cytuno gyda'r canfyddiadau yn yr Asesiad Lles?
ii. Oes unrhyw beth y mae angen i ni ei newid?
iii. Oes yna unrhyw beth rydym ni wedi'i fethu?
iv. Ydych chi'n debygol o ddefnyddio'r Asesiad Lles a'i gynnwys?
v. Unrhyw sylwadau neu syniadau eraill am yr Asesiad Lles?

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Cynllunio Ategol am yr adroddiad manwl a chynhwysfawr ac atgoffwyd aelodau o'r cyfoeth o wybodaeth sydd ar gael ar-lein.

Gan ymateb i gwestiynau'r Aelodau, fe wnaeth Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol y pwyntiau canlynol:

- Roedd swyddogion yn ymwybodol o'r anawsterau a oedd ynghlwm â chynhyrchu asesiad yn ystod y cyfnod digynsail hwn. Cydnabuwyd yr angen i fonitro ac adolygu rhai o'r canfyddiadau a'r casgliadau, yn flynyddol o bosibl wrth i sefyllfaoedd ddatblygu. Byddai'r asesiad yn cael ei gyhoeddi ar-lein, er mwyn galluogi'r ddogfen i barhau i fod yn fyw ac er mwyn gwneud unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau allweddol yn ôl yr angen.
- Roedd cyfeiriadau a phenawdau'r Crynodeb Gweithredol a'r Asesiad yn cynnwys y boblogaeth hŷn a phobl ifanc. Roedd swyddogion wedi cydnabod y broblem o ymfudiad allanol pobl ifanc. Roedd y pryder hwn wedi arwain at boblogaeth hŷn, costau gofal uwch ac incwm refeniw is o fewn awdurdodau.
- Cododd aelodau bryderon am y ffaith nad oedd aelodau'n bod yn hunangynhaliol o ran gweithgynhyrchu ac ynni. Nodwyd y gellid gwneud mwy o waith ymchwil i hunangynhaliaeth yn yr ardal. Nododd y Rheolwr Cynllunio Strategol bryderon yr aelodau a chadarnhaodd bod yr asesiad yn cynnwys cyfeiriadau a gwaith ymchwil i economi werdd.
- Awgrymwyd y dylid cynnal adolygiad o effaith Covid a'r arferion a gofynion gweithio y gellid eu cynnwys wrth adolygu'r mater o gadw trigolion a gweithwyr proffesiynol ifanc.
- Nodwyd barn a phryderon aelodau, a byddai'r rhain yn cael eu rhannu â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er gwybodaeth pan fyddai'r Bwrdd wedi datblygu ei Gynllun Lles.
- Roedd comisiwn ar gyfer ffeithluniau wedi dechrau, byddai'n helpu unigolion i ganolbwyntio ar rai o'r canfyddiadau allweddol yn yr asesiad. Gobeithiwyd y byddai'n ddefnyddiol ac yn ymarferol ar gyfer ei ddarllenwyr.
- Roedd aelodau'n cytuno gyda'r argymhellion ond gofynnwyd a fyddai modd cynnwys nodyn bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid yn ystyried yr effaith ehangach ar les drwy wasanaethau caffael. Cytunodd aelodau i swyddogion drafod a llunio'r geiriad ar gyfer argymhelliad ychwanegol yn dilyn y cyfarfod gyda chytundeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd ynghlwm â'r broses o lunio Asesiad Lles 2022.

<u>Penderfynwyd</u>: - yn amodol ar y sylwadau a'r arsylwadau uchod –

(i) derbyn yr adroddiad;

(ii) cadarnhau canfyddiadau'r Asesiad Lles;

(iii) argymell bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys ei aelodau a'i sefydliadau partner, yn defnyddio ei bwerau caffael mor lleol â phosibl er mwyn rhoi pwyslais ar gyflogaeth, lleihau ôl-troed carbon yn unol â nodau lleol a chenedlaethol, cefnogi lles lleol a helpu i gynnal y Gymraeg a'i diwylliant; a

(iv) chadarnhau y bydd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn defnyddio'r Asesiad Lles a'i gynnwys wrth graffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chefnogi gweithgareddau'r cynllun gwaith i'r dyfodol.

7 ADBORTH O'R GWEITHDY

Gan gyflwyno'r eitem, cynghorodd y Cadeirydd bod aelodau'r Pwyllgor a swyddogion cefnogi wedi cynnal gweithdy cyn cyfarfod y Pwyllgor. Nod y gweithdy oedd rhoi cyfle i aelodau adolygu'r argymhellion a oedd wedi'u cynnwys ym mhapur trafod Archwilio Cymru, 'Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru (Hydref 2019)' a oedd yn ymwneud yn benodol â chraffu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, sef:

(a) er mwyn gwella ei brosesau craffu, bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn defnyddio canfyddiadau Papur Archwilydd Cyffredinol Cymru, chwe thema i helpu gwneud craffu yn 'Barod at y dyfodol' i adolygu ei berfformiad presennol a nodi ble mae angen iddynt gryfhau trefniadau; a
(b) bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn sicrhau fod gan bwyllgorau craffu ymgysylltiad digonol gydag ystod o fudd-ddeiliaid perthnasol sy'n gallu helpu i ddal y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyfrif.

Darparodd y Cydlynydd Craffu, Rhian Evans, grynodeb o'r agweddau amrywiol o rôl y Pwyllgor a drafodwyd yn ystod y gweithdy, a'r chwe thema i wneud craffu yn 'barod at y dyfodol'. Sef, bod y Pwyllgor yn:

- gwybod ei rôl
- gyfarwydd gyda'r pwerau a ymddiriedwyd iddo, beth mae'n gallu ei wneud a beth nad yw'n gallu ei wneud
- deall yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni
- cynllunio ei waith i gyflawni ei nodau
- ymwybodol o'r trefniadau cymorth sydd ar gael iddo a'r offer a'r mecanweithiau mae'n gallu eu defnyddio i gyflawni ei nodau; a
- gwerthuso ei effeithlonrwydd yn rheolaidd gyda'r nod o nodi unrhyw fylchau mewn gwybodaeth a meysydd sydd angen eu gwella wrth iddo ymdrechu'n barhaus i wynebu heriau i'r dyfodol

Yn ystod y gweithdy, fe ddaeth yn amlwg bod y Cydbwyllgor yn gyfarwydd â'i rôl, yn ogystal â graddau ei bwerau i graffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i ddal i gyfrif. Ers ei sefydlu, roedd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi bod yn awyddus i ddeall rôl pob partner o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus statudol a sut mae'r partneriaid hynny'n teimlo eu bod wedi elwa o fod yn aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Felly, cytunodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i gael eitem sefydlog ar ei raglen fusnes ar 'gyfraniad partneriaid, a'r manteision i bartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych', gan wahodd pob partner statudol i roi cyflwyniad ar y thema hon yn eu tro. Er bod y rhaglen hon wedi dechrau ac yn ymddangos fel ffordd effeithiol o ddeall gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r buddion ar gyfer trigolion a phartneriaid, bu i'r pandemig Covid-19 ein taro a bu'n rhaid defnyddio adnoddau sefydliadau partner er mwyn ymateb i'r pandemig. Fodd bynnag, gan fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn fforwm strategol lefel uchel, roedd aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu o'r farn y byddai'n werth i'r Cydbwyllgor newydd barhau â'r ymarfer hwn yn dilyn yr etholiadau awdurdodau lleol unwaith y byddwn wedi dychwelyd i 'fusnes arferol'. Dylid parhau i rannu rhaglenni cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ag aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu er gwybodaeth yn ogystal ag annog aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i arsylwi'r trafodion.

Roedd yn amlwg y byddai disgwyl i awdurdodau lleol a chyrff sector cyhoeddus eraill roi rhagor o ystyriaeth i ddatblygiadau rhanbarthol a gweithio gyda'i gilydd ar sail ranbarthol yn y dyfodol, h.y. drwy Gydbwyllgorau Corfforaethol. Byddai felly'n allweddol i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ddeall sut i weithio'n effeithiol yn lleol, yn is-ranbarthol ac yn rhanbarthol. Byddai'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cyfrannu at sicrhau synergedd rhwng gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chyrff amrywiol megis Cydbwyllgorau Corfforaethol, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac ati.

Byddai'n hanfodol yn y dyfodol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu sicrhau fod ei argymhellion yn ystyrlon ac yn ymarferol. I gyflawni hyn, byddai'n rhaid iddo ddyfeisio rhaglen gwaith i'r dyfodol briodol a chytbwys. Gellid defnyddio nifer o offer i gyflawni hyn, er enghraifft cynlluniau a strategaethau amrywiol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ogystal â data allanol megis data'r Cyfrifiad diweddaraf a fyddai'n cael eu cyhoeddi yn ystod tymor nesaf y Cyngor.

Wrth symud ymlaen, nododd aelodau y byddai'n ddefnyddiol:

- cynnal digwyddiad gweithdy yn achlysurol er mwyn gwerthuso gwaith y Cydbwyllgor a'i effeithlonrwydd.
- parhau i gynnal sesiynau briffio cyn cyfarfodydd rhwng y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd a swyddogion cefnogi craffu er mwyn trafod materion ffurfiol y cyfarfod. Dylid hefyd anfon gwahoddiadau ar gyfer y sesiwn friffio cyn cyfarfodydd at aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu a allai fynychu pe dymunent, byddai eu presenoldeb yn y sesiynau hyn yn hollol ddewisol.
- cyfethol cynrychiolwyr o 'restr cyfranogwyr a wahoddwyd' y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cydbwyllgor er mwyn trafod eitemau neu feysydd gwaith arbennig, gan y gallai eu mewnbwn i'r eitemau hyn gynorthwyo aelodau i asesu effeithlonrwydd cynlluniau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a helpu i ddal y Bwrdd i gyfrif;
- datblygu cysylltiadau gwell gyda chynghorau dinas, tref a chymuned yn yr ardal, ynghyd â budd-ddeiliaid ac unigolion eraill a oedd wedi ymgysylltu gyda datblygiad yr Asesiad Lles, a'r Cynllun Lles maes o law, fel dull i helpu i werthuso'r effaith ar yr Asesiad a'r Cynllun i fesur p'un a oedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn darparu yn erbyn eu disgwyliadau.
- gwneud cais i eitem fusnes reolaidd gael ei rhestru ar raglenni cyfarfodydd busnes y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r dyfodol ar gyflwyno cofnodion cyfarfodydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu i'r Bwrdd. Dylid gwahodd Cadeirydd neu Is-gadeirydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflwyno'r cofnodion. Pe bai angen, gellid hefyd defnyddio'r eitem fusnes i gyflwyno unrhyw argymhellion gan y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu hystyried. Byddai hefyd yn gwneud y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'n fwy amlwg i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn helpu i ddatblygu sianeli cyfathrebu cryf rhwng y cyrff. Roedd potensial hefyd i helpu i ddatblygu perthynas waith adeiladol ac effeithiol rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ac fel arall.

<u>Penderfynwyd:</u> cytuno ar y camau gweithredu a restrir uchod a bod Cadeirydd/Is-gadeirydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn adrodd ar y camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael ag argymhellion Archwilio Cymru i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gyfarfod nesaf.

8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau a Chraffu Conwy, Dawn Hughes, raglen gwaith i'r dyfodol y Cydbwyllgor (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Gan fod yr Asesiad Lles wedi cael ei drafod, ac argymhellion wedi cael eu gwneud mewn perthynas â'r Asesiad, nid oedd unrhyw fusnes strategol i'w drafod yn y cyfarfod a oedd wedi'i drefnu ym mis Mawrth 2022, felly cytunwyd y dylid canslo cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor a drefnwyd ar gyfer 11 Mawrth 2022.

Cynghorwyd Aelodau, yn dilyn etholiadau'r awdurdod lleol ym mis Mai 2022 a chyn cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor ar 21 Hydref 2022, y byddai digwyddiad ymgyfarwyddo a datblygu'n cael ei gynnal ddiwedd mis Medi neu ddechrau mis Hydref 2022 ar gyfer y Cydbwyllgor newydd. Byddai'r dyddiad yn cael ei gadarnhau cyn gynted â phosibl. Byddai hyn yn rhoi digon o amser i aelodau etholedig ymgyfarwyddo â'u rolau awdurdod cyfansoddol a mynychu digwyddiadau hyfforddiant a datblygu aelodau sylfaenol cyn dechrau eu rôl ar Gydbwyllgor.

Yn y cyfarfod ar 21 Hydref 2022, byddai gofyn i aelodau'n archwilio datblygiad Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a byddai modd i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ei hun ddatblygu ei raglen gwaith i'r dyfodol.

Yn ogystal â hynny, roedd dyddiad dros dro ar gyfer cyfarfod o'r Cydbwyllgor wedi'i drefnu ar gyfer 10 Mawrth 2023. Byddai'r dyddiad hwn yn cael ei gadarnhau yn nes at yr amser.

<u>Penderfynwyd:</u>:

- ***(i) canslo cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 11 Mawrth 2022; a***
- ***(ii) chytuno i gynnal digwyddiad ymgyfarwyddo a datblygu ar gyfer aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ddiwedd mis Medi neu ddechrau mis Hydref 2022, cyn cyfarfod cyntaf y Cydbwyllgor yn nhymor newydd awdurdodau lleol ar 21 Hydref 2022.***

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau am gymryd rhan yn y gweithdy a'r cyfarfod. Diolchodd iddynt hefyd am eu cyfraniadau at waith y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystod ei dymor cyntaf, a dymunodd yn dda iddynt i'r dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm.